# Crynodeb Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangywer

| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol | Penderfyniadau |
|---|---|---|---|
| 11/5/26 | Dim | Clwyd Davies Emyr Jones, Tyly Roberts, Geraint Roberts, W D Williams<br>Lis Puw (Clerc)<br><br>**Ymddiheuriadau:** Gwyn Roberts, Eleri Jones | **Ariannol:**<br>Derbyniadau: Praesept ac Ad-daliad TAW<br>Taliadau: Cadarnhawyd talu am doriad cyntaf gwair y fynwent (cymeradwywyd trwy e-bost).<br>Cytunwyd i dalu anfoneb y cwmni Yswiriant.<br>Cadarnhawyd taliad Debyd Uniongyrchol ar gyfer wi-fi yn y Neuadd.<br><br>**Y fynwent** –cytunwyd i godi ffioedd y fynwent yn unol â chwyddiant ac yn unol â ffioedd mynwent Llanuwchllyn.<br><br>Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd wneud casgliad arbennig o'r bin yn y fynwent.<br><br>**Cronfa Datblygu Digwyddiadau Gwynedd 2026/7:** Cytunodd y Cyngor i gefnogi dymuniadau lleol i ddiogelu ffabric y Neuadd trwy ymgeisio am y grant. |
| | | | |